# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd Ffurflen Sylwadau

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol i'w Archwilio gan y Cyhoedd, a hefyd ynghylch amrywiaeth o ddogfennau a thystiolaeth sy'n ategu'r Cynllun. Fe ddewch chi o hyd i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r dogfennau cysylltiedig ar wefan y Cyngor, http://www.siryfflint.gov.uk/ldp.**

Y peth gorau yw ichi gyflwyno'ch sylwadau'n uniongyrchol drwy'r porth ymgynghori ar-lein: https://consult.flintshire.gov.uk/portal/.

Fel arall, gallwch gwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon drwy e-bost i: developmentplans@flintshire.gov.uk

neu drwy'r post at:

Andrew Farrow,
Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi),
Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint,
CH7 6NF.

Mae sawl rhan i'r ffurflen hon:

Rhan A - Manylion personol

Rhan B – eich sylwadau (dylid nodi y bydd y rhain ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ac fe'u hanfonir i'r Arolygiaeth Gynllunio).

Rhan C - Profion Cadernid

Rhan D - Gwybodaeth a Dogfennau Ategol

Rhan E - Ymddangos mewn Sesiwn Gwrandawiad yr Archwiliad

Darllenwch y canllawiau manwl ar ddiwedd y ffurflen.

**Rhaid derbyn yr holl sylwadau erbyn 5pm ar 11 Tachwedd 2019.**

| **At ddefnydd y swyddfa'n unig:** | |
|---|---|
| Dyddiad derbyn: | Rhif adnabod: |
| Dyddiad cydnabod y ffurflen: | Rhif y sylwadau: |

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

## Rhan A - Manylion personol

| | Chi | Eich asiant (os yw'n berthnasol) |
|---|---|---|
| Teitl | | |
| Enw Cyntaf | | |
| Cyfenw | | |
| Teitl Swydd (os yw'n berthnasol) | | |
| Enw'r cwmni / sefydliad (os yw'n berthnasol): | | |
| Llinell gyntaf y Cyfeiriad | | |
| Ail linell y Cyfeiriad | | |
| Trydedd linell y Cyfeiriad | | |
| Pedwaredd linell y Cyfeiriad | | |
| Pumed linell y Cyfeiriad | | |
| Cod Post | | |
| e-bost | | |
| Ffôn sefydlog | | |
| Ffôn symudol | | |
| At bwy yr hoffech chi inni Atoch chi anfon gohebiaeth? | At eich asiant | |
| Beth yw'r ffordd orau o gysylltu â chi? (Byddai'n well gan y Cyngor ddefnyddio e-bost) | Atoch chi e-bost ysgrifenedig | At eich asiant e-bost ysgrifenedig |
| Llofnod | | |
| Dyddiad | | |

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## Rhan B - Eich sylwadau (Defnyddiwch ffurflen newydd ar gyfer gwahanol sylwadau)

| | | |
|---|---|---|
| **Nodwch pa bolisi, paragraff neu safle y mae a wnelo'ch sylwadau ag ef:** | **Polisi:** | |
| | **Paragraff:** | |
| | **Safle:** | |
| **Nodwch at ba Bapur Cefndir neu dystiolaeth ategol y mae'ch sylwadau yn cyfeirio:** | **Rhif** | |
| | **Enw** | |
| **A yw'ch sylwadau yn cefnogi neu'n gwrthwynebu?** | **Cefnogi** | |
| | **Gwrthwynebu** | |

**Nodwch unrhyw fanylion eraill am eich sylwadau yn y blwch isod:**
(os yw'ch sylwadau'n fwy na 500 o eiriau, rhowch grynodeb ohonynt yn y blwch isod, ac atodi unrhyw fanylion a dogfennau ategol)

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi o'r farn bod angen unrhyw newidiadau yn y cynllun?** | **Ydw** | |
| | **Nac ydw** | |

**Os ydych chi, eglurwch pam yn y blwch isod:**
(os yw'ch sylwadau'n fwy na 500 o eiriau, rhowch grynodeb ohonynt yn y blwch isod, ac atodi unrhyw fanylion a dogfennau ategol)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## Rhan C - Profion Cadernid

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi o'r farn bod y Cynllun yn gadarn?** | **Ydw** | |
| | **Nac ydw** | |

**Os nad ydych chi o'r farn bod y Cynllun yn gadarn, pa brawf neu brofion cadernid y credwch y mae wedi'u methu?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofynion cyfreithiol, rheoleiddio a gweithdrefn?** | ☐ | **Methu Prawf 2: A yw'r Cynllun yn briodol** (a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth)? | ☐ |
| **Methu Prawf 1: A yw'r cynllun yn gyson** (a yw'n glir bod y Cynllun yn gyson â chynlluniau eraill)? | ☐ | **Methu Prawf 3: A fydd y Cynllun yn cyflawni ei amcanion** (a yw'n debygol o fod yn effeithiol)? | ☐ |

**Esboniwch pam nad yw'r Cynllun yn gadarn, neu esboniwch pa newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn gwneud y Cynllun yn gadarn, yn y blwch isod**

(nodir y profion cadernid i gyd yn natganiad ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol, paragraff 3.2):

## Rhan D - Gwybodaeth / Dogfennau Ategol

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi wedi cynnwys unrhyw fanylion pellach neu ddogfennau ategol gyda'ch sylwadau?** | **Ydw** | |
| | **Nac ydw** | |
| **Rhestrwch yn y blwch isod y wybodaeth a dogfennau ategol yr ydych yn eu cyflwyno gyda'ch sylwadau** | | |

## Rhan E - Ymddangos mewn Sesiwn Gwrandawiad yr Archwiliad

| | | |
|---|---|---|
| **Os ydych chi wedi gwrthwynebu unrhyw agwedd ar y Cynllun neu argymell newidiadau ynddo, a hoffech chi siarad mewn sesiwn gwrandawiad yn ystod yr archwiliad cyhoeddus o'r Cynllun?** | **Hoffwn** | |
| | **Na hoffwn** | |
| **Os hoffech chi siarad mewn sesiwn gwrandawiad, ym mha iaith y dymunwch gyfrannu?** | **Saesneg** | |
| | **Cymraeg** | |

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

## Nodiadau

Dylid defnyddio ffurflen ar wahân ar gyfer unrhyw sylwadau gwahanol y dymunwch eu gwneud.

Dylech gynnwys yr holl wybodaeth a thystiolaeth ategol sydd eu hangen er mwyn cefnogi / cyfiawnhau eich sylwadau.

Atodwch dudalennau ychwanegol lle bo gofyn, gan roi rhifau amlwg ar bob tudalen yn eu tro a nodi ar y ffurflen pob dogfen ychwanegol unigol a gyflwynir.

Dylech ysgrifennu eich sylwadau yn llawn. Bydd hynny'n fuddiol i'r Cyngor a'r Arolygydd wrth ddeall y materion yr ydych yn eu codi. Byddai'n ddefnyddiol, fodd bynnag, pe gallech beidio â defnyddio mwy na 500 o eiriau yn y blychau sylwadau ar y ffurflen. Gallech roi crynodeb yn y blwch sylwadau a chynnwys sylwadau manylach mewn dogfen ar wahân.

**Deisebau** - pan mae grŵp yn rhannu barn gyffredin ynglŷn â sut y dylid newid y Cynllun, byddai'n fuddiol i'r grŵp hwnnw anfon un ffurflen gyda'i sylwadau i gyd, yn hytrach na bod criw mawr o unigolion yn anfon ffurflenni ar wahân yn mynegi'r un farn. Mewn achosion felly dylai'r grŵp nodi faint o aelodau sydd ganddo, a sut yr awdurdodwyd y sylwadau. Dylid nodi'n bendant pwy yw cynrychiolydd (neu brif ddeisebwr) y grŵp. Nid yw llofnodi deiseb yn atal neb rhag cyflwyno ffurflenni unigol.

Mae **ffurflenni ychwanegol** i'w cael yn Nhŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo CH5 3FF neu gellir eu lawrlwytho o'r porth ymgynghori y sonnir amdano uchod.

**Profion Cadernid** - nodwch pa brawf neu brofion cadernid y mae'r Cynllun yn eu llwyddo neu fethu, gan roi rhesymau pam. Os credwch fod angen newidiadau yn y Cynllun er mwyn ei wneud yn gadarn, esboniwch beth yn union yw'r newidiadau hynny. Bydd hynny'n fuddiol i'r Cyngor a'r Arolygydd wrth ddeall y materion yr ydych yn eu codi. Fodd bynnag, ni fydd methu â nodi prawf yn golygu y caiff eich sylwadau eu diystyru, ar yr amod eu bod a wnelo â'r Cynllun neu'r dogfennau cysylltiedig. Ceir manylion y Profion Cadernid yn y datganiad ysgrifenedig ym mharagraff 3.2.

**Newidiadau yn y Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd** - os hoffech chi weld y Cynllun yn newid, byddwch mor benodol ag y gallwch. Er enghraifft, os ydych o'r farn fod rhywbeth wedi'i hepgor o'r Cynllun, dylech fanylu ynghylch yr hyn a gynigiwch o ran polisi newydd, testun ategol, diwygio lleoliad safle neu gynnig safle newydd. Dylech nodi'n amlwg sut mae eich sylwadau'n cyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (Asesiad Effaith Integredig) wrth ymdrin ag effeithiau tebygol y safle newydd o ran cynaladwyedd. Bydd hyn yn hanfodol os yw'r sylwadau'n gofyn am gynnwys safle newydd neu ddiwygio safle. Os ydych chi'n argymell cynnwys safle newydd, dylech gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd gyda'r ffurflen, ac mae'n rhaid i hwnnw fod yn gyson â chwmpas, fframwaith a manylder yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gynhaliodd y Cyngor a'i gyhoeddi gyda'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

**Safleoedd newydd neu ddiwygiedig** - os cyflwynir unrhyw safleoedd newydd neu ddiwygiedig gyda'r sylwadau ynghylch y Cynllun, yna mae'n rhaid cynnwys cynlllun o'r safle sy'n nodi'r lleoliad a'r ffiniau'n amlwg.

## Nodiadau

**Sylwadau ynglŷn â Safleoedd Amgen** - mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Papur Cefndir ynglŷn ag Asesu Safleoedd Posib / Amgen. Nid oes dim un o'r safleoedd amgen a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir (ac a gyhoeddwyd mewn Cofrestr o Safleoedd Amgen) wedi ei gynnwys yn y Cynllun i'r Cyhoedd ei Archwilio. Serch hynny, yn sgil archwilio'r Cynllun mae'n bosib y caiff rhai Safleoedd Amgen eu cynnwys yn y Cynllun. Felly, mae cyfle'n awr i bobl gyflwyno sylwadau ynghylch y safleoedd amgen.

**Archwiliad:**

Arolygydd annibynnol wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru a fydd yn archwilio Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint. Gwaith yr Arolygydd fydd ystyried a yw'r Cynllun yn bodloni'r gofynion o ran y weithdrefn, ac a yw'r Cynllun yn gadarn. Fodd bynnag, dylid nodi nad lle'r Arolygydd yw gwella cynllun sydd eisoes yn dderbyniol.

Ar hyn o bryd ni allwch ond cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, bydd pawb sy'n dymuno newid y Cynllun yn medru ymddangos gerbron yr Arolygydd i siarad mewn sesiwn gwrandawiad pan gynhelir yr archwiliad cyhoeddus nesaf. Ond dylech gadw mewn cof y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r un ystyriaeth i'r sylwadau ysgrifenedig ar y ffurflen hon ag unrhyw sylwadau a wneir ar lafar mewn sesiwn gwrandawiad. Dylech nodi hefyd mai'r Arolygydd a fydd yn penderfynu'r weithdrefn fwyaf priodol ar gyfer hwyluso cyfraniadau'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ar lafar.

Ni allwch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r Archwiliad ond os yw'r Arolygydd yn eich gwahodd i drafod materion y bydd ef neu hi wedi'u codi. Rhaid ichi ddefnyddio'r ffurflen hon i dynnu sylw'r Arolygydd at faterion yr ydych yn pryderu yn eu cylch; ni allwch ddibynnu ar sylwadau a wnaed mewn ymgyngoriadau blaenorol gan nad yw'r Arolygydd yn rhwym i'w hystyried.

**Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ni chaiff eich data eu prosesu ond at y diben penodol o wneud sylwadau ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, a gwneir hynny ar gyfer cyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd fel y nodwyd yn y fframwaith a bennwyd yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich manylion am oes proses y Cynllun Datblygu Lleol, sef nes bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu fel fersiwn derfynol.

Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'r wefan neu drwy ffonio'r llinell gymorth ar 0303 123 1113.

**I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan.**
**https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx**
**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cynllun Datblygu Lleol, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 01352 703213.**

**Fe gewch chi ragor o wybodaeth drwy ffonio llinell gymorth**
**y Cynllun Datblygu Lleol ar 01352 703213**
**neu e-bostio developmentplans@flintshire.gov.uk.**

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL